Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ganolfan Datblygu Plant Woodlands

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/07/2016**

## Cyd-destun

Mae Canolfan Datblygu Plant Woodlands yn darparu gofal preswyl, addysg a therapi tra arbenigol i fechgyn rhwng 11 a 18 oed sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol a chymhleth. Mae'r ysgol yn nhref Wrecsam gerllaw amwynderau a chyfleusterau hamdden lleol.

Mae 14 o ddisgyblion, rhwng 13 ac 18 oed, ar gofrestr yr ysgol. Mae gan saith o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae pob un o'r disgyblion yn byw yng nghartrefi plant Woodlands yn yr ardal leol.

Mae cynlluniau manwl ar waith gan yr ysgol ar gyfer estyniad i'r safle addysg.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd croesawgar iawn lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a sicr. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at bresenoldeb a deilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda â darparwyr addysg bellach a hyfforddiant. O ganlyniad, mae disgyblion hŷn yn cael manteisio ar lwybrau dysgu sy'n briodol i'w hanghenion a'u diddordebau.

Mae staff gofal ac addysgu yn gweithio'n agos iawn â'i gilydd i ddarparu dull cyson o reoli ymddygiad disgyblion a chefnogi'u cynnydd.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r anogaeth a'r lefel uchel o gymorth a gânt gan eu hathrawon.

Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn llawn cymhelliant ac yn dangos diddordeb o hyd, ac yn cymryd rhan weithgar yn eu gwersi.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn dda. Mae disgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith yn gweithio gydag athro Cymraeg arbenigol, ac maent yn cael cyfle perthnasol i sefyll eu TGAU mewn Cymraeg.

### Meysydd i'w datblygu

Nid yw polisïau perthnasol yn cyfeirio at y canllaw ar y ddyletswydd Atal ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cynlluniau datblygedig gan yr ysgol ar waith ar gyfer hyfforddi staff yn y maes hwn.

Mae ychydig o athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion asesu ansawdd eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr holl ddosbarthiadau.

Mae gan yr ysgol adroddiad hunanarfarnu cyfoes. Mewn ychydig o adrannau, fodd bynnag, nid yw hwn yn cyfeirio'n gyson at safonau disgyblion a'u deilliannau.

**Argymhellion**

A1 Diwygio polisïau perthnasol i gynnwys cyfeiriad at ganllaw'r ddyletswydd Atal

A2 Gwneud yn siŵr bod dull cyson o gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion asesu ansawdd eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion

A3 Gwneud yn siŵr bod yr adroddiad hunanarfarnu yn cyfeirio at, ac yn cysylltu â, disgyblion a'u deilliannau

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae polisi ar gymorth cyntaf gan yr ysgol erbyn hyn, ac mae'n ei weithredu'n llwyddiannus.

**Argymhelliad 2: Coladu cyfres bendant, gyfredol o bolisïau ysgol, y gall pob parti fynd atynt yn rhwydd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi coladu'r holl bolisïau ar ffurf copi caled ac mae'r holl staff yn gallu mynd atynt yn rhwydd. Mae holl bolisïau'r ysgol ar gael ar-lein.

**Argymhelliad 3: Cynnwys disgyblion yn agosach mewn gosod a monitro targedau eu cynlluniau addysg unigol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Erbyn hyn, mae disgyblion yn cymryd rhan weithgar mewn gosod ac adolygu targedau eu cynlluniau addysg unigol (CAUau). Mae cynlluniau gwersi'n cysylltu'n dda â thargedau'r disgyblion, ac mae athrawon yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fodloni'r targedau hyn.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Canolfan Datblygu Plant Woodlands |
| **Rhif yr ysgol** | 6656042 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 27/04/2016 |
| **Perchennog** | Woodlands Ltd |
| **Staff** | 8 o Athrawon<br>1 Goruchwyliwr Cyflenwi<br>2 Cymorth Ymddygiad<br>2 Diwtor Addysg Awyr Agored |
| **Nifer y disgyblion** | 14 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth 50 wythnos/Darpariaeth breswyl 52 wythnos |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, anhwylderau yn y sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu cymedrol. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/07/2013 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 29/04/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 28/10/2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Gill Sims | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Claire Yardley | Arolygydd Tîm |